

# Agenda – Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

---

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:  
Ystafell Bwyllgora 5 – Tŷ Hywel a Robert Donovan  
fideogynadledda drwy Zoom Clerc y Pwyllgor  
Dyddiad: 0300 200 6565  
Dydd Mercher, 31 Ionawr 2024 [SeneddEconomi@senedd.cymru](mailto:SeneddEconomi@senedd.cymru)  
Amser: 09.30

## Hybrid

---

### Rhag-gyfarfod preifat

(09.15–09.30)

### Cyfarfod cyhoeddus

(09.30–10.35)

#### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

#### 2 Papurau i'w nodi

(09.30)

##### 2.1 Craffu cyffredinol ar waith y Gweinidog – 13 Rhagfyr 2023

(Tudalennau 1 – 3)

##### Dogfennau atodol:

Llythyr gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd –  
16 Ionawr 2024



## 2.2 Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru

(Tudalennau 4 – 7)

### Dogfennau atodol:

Llythyr gan Weinidog yr Economi – 17 Ionawr 2024

## 2.3 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)

(Tudalennau 8 – 10)

### Dogfennau atodol:

Llythyr at Compassion in World Farming – 19 Ionawr 2024

Llythyr at Undeb Amaethwyr Cymru – 19 Ionawr 2024

Llythyr at Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru – 19 Ionawr 2024

## 2.4 Cyswllt Ffermio

(Tudalennau 11 – 16)

### Dogfennau atodol:

Llythyr at Lantra – 23 Ionawr 2024

Llythyr at Menter a Busnes – 23 Ionawr 2024

Llythyr at y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd – 23 Ionawr 2024

## 3 Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru: Panel 1 – Safbwynt Cymreig

(09.30–10.30)

(Tudalennau 17 – 33)

Yr Athro Dylan Jones–Evans

Tegid Roberts

### Dogfennau atodol:

Briff Ymchwil

**4 Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)**  
(10.30–10.35)

**5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**  
(10.35)

**Preifat**

(10.35–11.20)

**6 Trafod tystiolaeth yn dilyn y cyfarfod**  
(10.35–10.40)

**7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2024–25: Cytuno ar yr adroddiad**

(10.40–10.55)

(Tudalennau 34 – 67)

**Dogfennau atodol:**

Adroddiad y Pwyllgor: Craffu ar gyllideb ddrafft 2024–25 Llywodraeth Cymru  
[Saesneg yn unig]

**8 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel)**

(10.55–11.15)

(Tudalennau 68 – 93)

**Dogfennau atodol:**

Briff Ymchwil

Nodyn Cyngor Cyfreithiol [Saesneg yn unig]

## **9 Dyfodol Dur yng Nghymru: trafod y dull craffu**

(11.15–11.20)

(Tudalennau 94 – 95)

**Dogfennau atodol:**

Dyfodol Dur yng Nghymru: trafod y dull craffu [Saesneg yn unig]



Paul Davies AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd

SeneddEconomy@senedd.cymru

16 Ionawr 2024

Annwyl Paul,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Ionawr yn cynnwys cwestiynau dilynol yn ymwneud â'm presenoldeb yn y Pwyllgor ar 13 Rhagfyr ar gyfer Craffu Cyffredinol. Gweler fy atebion isod.

### Y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS)

- A wnaiff y Gweinidog nodi sut y bydd yn ymgysylltu â'r diwydiant ffermio mewn perthynas â chyfraddau talu, er mwyn sicrhau ymrwymiad a chyfranogiad yn y cynllun SFS a sicrhau ei lwyddiant?

Mae fy swyddogion wedi trefnu cyfres o 10 digwyddiad wyneb yn wyneb ledled Cymru yn ystod y cyfnod ymgynghori, i roi cyfle i ffermwyr ofyn cwestiynau am ddyluniad y cynllun arfaethedig a methodoleg taliadau. Mae hyn yn cynnwys y taliadau Llinell Sylfaen a Sefydlogrwydd Cyffredinol.

Rwyf wedi cynnig, yn yr ymgynghoriad, y gallai ffermwr sy'n ymuno â'r Cynllun ac a dderbyniodd daliad BPS yn 2024 hefyd dderbyn Taliad Sefydlogrwydd, sy'n ychwanegol at y Taliad Sylfaenol Cyffredinol a dderbyniwyd o dan y Cynllun. Bydd y Taliad Sefydlogrwydd yn helpu ffermwyr i bontio o un system gymorth i'r llall, ac yn darparu cymorth ariannol ychwanegol cyn i Weithredoedd Opsiynol a Gweithredoedd Cydweithredol yr SFS ddod ar gael. Am y rheswm hwn, disgwylir i'r taliad hefyd roi parhad i ymgeiswyr y BPS a oedd yn arfer hawlio am dir comin, a chynnwys ardaloedd SoDdGA a statws organig (fydd o bosibl yn cael eu cyflwyno yn 2024). Bydd y Taliad Sefydlogrwydd yn rhoi sicrwydd i ffermwyr sy'n ymuno â'r Cynllun am eu lefel gyffredinol o gefnogaeth yn ystod y Cyfnod Pontio.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru)  
[Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales](mailto:Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae disgwyl i ddigwyddiadau tebyg i ymgysylltu â ffermwyr gael eu hailadrodd yn dilyn yr ymgynghoriad, unwaith y bydd y penderfyniad terfynol ar gyfraddau dylunio a thalu'r Cynllun wedi'u gwneud. Bydd y digwyddiadau hyn, a fydd yn cael eu cefnogi gan ganllawiau'r Cynllun manwl, yn cynnwys cyfleoedd i ffermwyr ofyn am gyfraddau talu a deall yr effaith bosibl ar eu busnesau.

## **Defnyddio gwersi a ddysgwyd o weithredu cynllun Cynefin Cymru (HWS)**

- A all y Gweinidog ddarparu rhestr o wersi a ddysgwyd o ddylunio'r HWS a fydd yn cael eu hystyried ar gyfer cwblhau a gweithredu'r SFS?

Unwaith y bydd pob contract wedi'i gyhoeddi ym mis Ionawr a'i dderbyn gan ymgeiswyr llwyddiannus, byddwn wedyn yn gallu myfyrio ar ddatblygiad a chyflwyniad Cynllun Cynefin Cymru ac ystyried sut y gellir defnyddio'r gwersi a ddysgwyd wrth gwblhau'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

O'r broses ddatblygu a chymhwyso, mae'r gwersi mwyaf wedi dod o ddefnyddio a chyflwyno data i ddarpar ymgeiswyr. Rydym wrthi'n edrych ar y problemau a gafwyd yn nyddiau cynnar y cyfnod ymgeisio a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain wrth gyflwyno yn y dyfodol.

Roedd lansio'r Cynllun hwn yn llwyddiant mawr. Yn seiliedig ar y data cychwynnol a gymerwyd o Ddatganiadau o Ddiddordeb, gallai dros 276,000ha o dir cynefin gael ei gefnogi ar ffermydd unigol. Mae hyn yn llawer mwy na'r 206,830ha a gefnogir o dan gontractau Glastir Uwch. O hyn, mae dros 22,800ha yn gynefin coetir.

Fel y dywedais uchod, mae gwersi i'w dysgu wrth i ni symud tuag at weithredu SFS. Mae angen i ni sicrhau ein bod yn cael y data sylfaenol cywir ar gyfer SFS a sicrhau bod ffermwyr a swyddogion yn cael yr amser angenrheidiol i ystyried a chasglu data'n gywir.

Eleni, bydd RPW yn cynnal ymarfer cadarnhau data, a fydd yn cynnwys rhoi gwybod am y setiau data cynefinoedd a nodweddion eraill y dirwedd, fel coed, coetir a gwrychoedd, i gynhyrchu mapiau ar-lein newydd ar gyfer SFS. Byddwn yn gweithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a ffermwyr wrth gwblhau'r gwaith hwn. Bydd swyddogion hefyd yn rhoi cyfle i ffermwyr ddiweddarau manylion deiliadaeth busnes a thir yn barod i'w cyflwyno yn yr SFS.

## **Rheoliadau Llygredd Amaethyddol**

- Mae Aelodau'n edrych ymlaen at dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am asesu cynigion ar gyfer mesurau amgen cyn gynted â phosibl, o gofio bod y dull gwell ar gyfer rheoli maetholion yn fesur dros dro a roddwyd ar waith ar gyfer blwyddyn galendr 2024.

Fel y nodwyd yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor ar 13 Rhagfyr, efallai na fydd unrhyw ddiweddariad ar y cynigion am fesurau amgen ar gael tan ymhell i mewn i'r flwyddyn. Mae fy llythyr dyddiedig 25 Mai 2023 at Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig ar y mater hwn yn nodi'r sefyllfa bresennol. Byddaf yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf unwaith y bydd fy swyddogion wedi cael cyfle i ymgymryd â gwaith pellach mewn perthynas â'r cynigion a'u hystyried yng nghyd-destun yr adolygiad pedair blynedd o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

## Clefydau Anifeiliaid

- Mae aelodau'n croesawu'r gwaith rhagweithiol sy'n cael ei wneud, a byddent yn gwerthfawrogi gweld adroddiad cryno yr ymarfer a'r gweithdai pen bwrdd diweddar, ar ôl eu cwblhau, i helpu i ddeall unrhyw fylchau o ran parodrwydd a sut y gellir mynd i'r afael â'r rhain.

Bydd Adroddiad Ymarfer Awyrennau Llundain yn cael ei gwblhau yn dilyn gweithdy terfynol Symudiadau Da Byw ar 07/02/2024. Rydym yn gobeithio derbyn yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror.

- Byddai aelodau'n gwerthfawrogi derbyn mwy o wybodaeth yn benodol am barodrwydd a stociau brechlyn sydd ar gael ar gyfer clefyd feirysol y Tafod Glas o ystyried iddo gael ei ganfod yn ddiweddar yn Lloegr.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gydag APHA a thimau polisi clefyd anifeiliaid eraill y DU ar fod yn barod am y Tafod Glas. Nodi nad oes brechlyn (yn y DU nac yn Ewrop) ar gyfer BTV-3, y straen o'r firws Tafod Glas sydd wedi'i ganfod yn Lloegr (ers canol mis Tachwedd).

Cofion,



**Lesley Griffiths AS/MS**  
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**  
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**



Ein cyf: VG-PO-015-24

Paul Davies, AS  
Cadeirydd  
Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

17 Ionawr 2024

Annwyl Gadeirydd,

Rwy'n croesawu ymchwiliad Banc Datblygu Cymru y Pwyllgor ac yn atodi sylwadau cychwynnol i gefnogi'r cam ymgynghori a hefyd yn cyfeirio'r Pwyllgor at fy Natganiad ym mis Hydref 2022 sy'n nodi pumed pen-blwydd y Banc Datblygu.

[Datganiad Llafar: Banc Datblygu Cymru – Buddsoddi Uchelgeisiol \(25 Hydref 2022\) | LLYW.CYMRU](#)

Rwy'n edrych ymlaen at ymddangos o flaen y Pwyllgor yn ddiweddarach eleni.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**  
Gweinidog yr Economi  
Minister for Economy

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru)  
[Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales](mailto:Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Tudalen y pecyn 4**  
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.



At: Paul Davies AS, Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig  
Oddi wrth: Vaughan Gething AS, Y Gweinidog yr Economi  
Dyddiad: 17 Ionawr 2024

## **Ynghylch: Ymchwiliad Banc Datblygu Cymru - 2024**

### **Diben**

Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth gefndirol i gefnogi ystyriaethau cychwynnol y Pwyllgor wrth iddo ddechrau ei ymchwiliad. Bydd papur tystiolaeth pellach yn cael ei ddarparu cyn i'r Gweinidog ddod i'r cyfarfod o'r Pwyllgor ar 24 Ebrill.

### **Trosolwg o Fanc Datblygu Cymru:**

Mae Banc Datblygu Cymru'n rhan allweddol o strategaeth Llywodraeth Cymru i greu Cymru fwy ffyniannus a chadarn ac i gefnogi economi Cymru drwy ei gwneud hi'n haws i fusnesau, arloeswyr ac entrepreneuriaid gael y cyllid sydd ei angen arnynt i gychwyn egin fusnes, i gryfhau ac i dyfu.

Prif rôl y Banc Datblygu yw llenwi'r gofod rhwng angen busnes am gyllid a chyflenwad cyllid yn y farchnad. Mae'n mynd i'r afael â'r 'bwllch' lle na all pharodrwydd i dderbyn risg a chynhyrchion confensiynol arianwyr y sector preifat ddiwallu anghenion busnesau sy'n chwilio am gyllid. Mae'n ofynnol iddo weithredu ar sail fasnachol, ac nid disodli'r farchnad yw ei swyddogaeth.

Mae'r Banc Datblygu yn gorff hyd braich ac felly nid yw Gweinidogion Cymru yn cymryd rhan mewn materion gweithredol o ddydd i ddydd, materion masnachol, nac mewn gwneud penderfyniadau o fewn Grŵp Banc Datblygu Cymru. Mae'r strwythur llywodraethu yn cynnwys y Bwrdd Cyfarwyddwyr, y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Taliadau a'r Pwyllgor Enwebiadau.

Ar adeg ei sefydlu yn 2017, gosodwyd targed buddsoddi blynyddol o £80 miliwn erbyn 2020 i'r Banc Datblygu. Cyrhaeddwyd y targed cychwynnol ddwy flynedd yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Dros ei bum mlynedd gyntaf (2017-2022) mae'r banc wedi rhagori ar dargedau buddsoddi, gan ddarparu effaith economaidd o £1.2 biliwn. Yn 2023-24 cyfanswm y buddsoddiadau ecwiti a dyledion oedd £124 miliwn.

Mae'r Banc Datblygu yn cefnogi blaenoriaethau ar draws Llywodraeth Cymru drwy ddarparu cyllid a gwasanaethau. Mae wedi profi ei fod yn gallu darparu atebion cymhleth yn gyflym. Dangoswyd hyn yn 2020 pan lansiodd y cynllun benthycu argyfwng cyntaf ar gyfer Covid-19 yn y DU. Mae enghreifftiau mwy diweddar yn cynnwys cyflwyno Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd newydd a chyflwyno cynllun Cymorth i Aros Llywodraeth Cymru.

Gyda phortffolio cwsmeriaid o dros 3000 o fusnesau, mae'r Banc Datblygu yn cynnig ystod helaeth o opsiynau ar gyfer cael cyllid, sy'n cefnogi anghenion benthycu micro ar raddfa lai hyd at gyllid ar gyfer twf ar raddfa fawr.

Yn ogystal â rheoli cronfeydd a gwneud buddsoddiadau, mae'r banc hefyd yn darparu gwasanaethau swyddogaethol i Lywodraeth Cymru ar sail gytundebol. Darparu Cymorth i Brynu Cymru yw'r mwyaf o'r gwasanaethau swyddogaethol hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi buddsoddi £8 miliwn yn y banc ar gyfer prosiectau Cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol ("MIMS") lle daw'r banc yn ddeiliad ecwiti cyhoeddus mewn cwmnïau sy'n codi cyfalaf ar farchnadoedd rhyngwladol ac yn cyflawni prosiectau cyfalaf mawr fel adeiladu ffyrdd, ysbytai ac ysgolion. Mae'r banc hefyd yn rheoli nifer o fenthyciadau cymhleth ar ran Llywodraeth Cymru a thrwy'r Grŵp Cefnogi Adfer mae'n darparu ymyrraeth amserol sy'n cefnogi busnesau mewn argyfwng.

Yr hyn sy'n gwneud y Banc Datblygu yn wahanol fel buddsoddwr yw'r dull partneriaeth o weithredu y maent yn ei fabwysiadu gyda'u cwsmeriaid. Daeth *y gorau yn y dosbarth a chyda wyneb dynol* yn ethos gweithredu ar gyfer y sefydliad. Mae arolwg 2022 ar syniadau pobl am natur y brand yn dangos yn glir bod gan gwsmeriaid a chyfryngwyr barch mawr at y banc datblygu. I gwsmeriaid priodoleddau cryfaf y brand yw 'gonest a dibynadwy', 'arbenigol a phroffesiynol' ac 'esbonio pethau'n eglur'. Mae Sgôr Hyrwyddwr Net y banc yn cael ei raddio'n 'rhagorol'. Y Sgôr Hyrwyddwr Net yw'r mesur a ddefnyddir i olrhain profiad cwsmeriaid yn seiliedig ar ba mor debygol ydyn nhw o argymell cynnyrch neu wasanaeth.

## **Llythyr cylch gwaith a Chynllun Corfforaethol**

Mae llythyrau cylch gwaith yn mynegi blaenoriaethau polisi a chyflawni ac yn hanesyddol maent wedi cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Ym mis Tachwedd 2021 cyhoeddwyd llythyr Cylch Gwaith 5 mlynedd am Dymor y Llywodraeth ar gyfer Banc Datblygu Cymru, sef y Cylch Gwaith cyntaf am Dymor Llywodraeth cyfan a roddwyd i unrhyw gorff Hyd Braich yng Nghymru.

Mae [Cynllun Corfforaethol](#) y banc, a ddatblygwyd mewn ymateb i'r cylch gwaith, yn nodi sut mae'n cefnogi Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â blaenoriaethau o ddatblygu economaidd i ddatgarboneiddio preswyl. Caiff cynnydd yn erbyn y targedau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol eu diweddarau'n flynyddol yn Nghynllun Gweithredol y banc.

Mae'r llythyr Cylch Gwaith hefyd yn cyfarwyddo'r banc i roi pwyslais ar ddarparu gwasanaeth ledled Cymru, ar draws sectorau, ac i gefnogi busnesau o wahanol feintiau ac ar wahanol gamau o'u datblygiad a'u twf. Mae dosbarthiad rhanbarthol y gweithgarwch o ran buddsoddi yn gytbwys ar draws Cymru.

## **Adrodd a Sicrwydd**

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob deufis, ac mae cyfarfodydd Gweinidogol gyda Chadeirydd a Phrif Swyddog Gweithredol y Banc Datblygu'n cael eu cynnal bob dwy flynedd gan roi'r cyfle i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y sefydliad a heriau strategol. Mae'r cyfarfodydd hyn hefyd yn rhoi cyfle i ddeall ble a sut y gallai'r llywodraeth ehangach gefnogi gwaith y banc. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd hyn yn rhan o'r fframwaith llywodraethu y cytunwyd arno ar gyfer y banc.

Mae gan Lywodraeth Cymru sylwedydd sy'n bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd. Mae swyddogion hefyd yn mynd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae'r cyfathrebu rhwng y banc a Llywodraeth Cymru yn cael ei reoli'n effeithiol gan y Tîm Partneriaeth ac mae'r Cadeirydd a/neu'r Prif Swyddog Gweithredol yn ysgrifennu'n rheolaidd at y Gweinidog i roi gwybod am ddatblygiadau, llwyddiannau neu heriau allweddol.

Mae tystiolaeth ac adborth o'r farchnad yn dweud wrthym fod Banc Datblygu Cymru wedi sefydlu ei hun fel sefydliad credadwy iawn. Mae'n cael ei barchu gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid yn y sector.

Mae'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi darparu llythyr sicrwydd i Lywodraeth Cymru yn nodi Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol y banc gan fynegi barn fod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.

Trafododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus eitem ar Gronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru ym mis Rhagfyr. Bydd adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd yn cael ei gynnal gan y banc ar ran Llywodraeth Cymru a bydd hwn yn cael ei rannu gyda'r pwyllgor maes o law.

## **Cyfalafu**

Mae cyllid busnes yn ymgymeriad hirdymor, yn enwedig mewn perthynas â buddsoddiad ecwiti neu gyfalaf tymor estynedig (cyfalaf amyneddgar). Ar hyn o bryd mae'r Banc Datblygu wedi'i gyfalafu'n dda, gyda gweithgaredd buddsoddi wedi'i broffilio yn ymestyn hyd at 2031 ar gyfer Cronfa Buddsoddi Hyblyg Cymru.

Nid yw'r banc yn cael 'grant cymorth'. Yn hytrach, mae'n defnyddio enillion o'r llog a godir ar fenthyciadau i dalu costau sefydliadol. Yn y modd hwn, pan fydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyfalaf i gefnogi cronfa a weithredir gan y banc, mae 100% o'r cyllid hwnnw'n cael ei gyfeirio at fusnesau.

Mae'r banc yn ceisio sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian er mwyn creu model ariannol cynaliadwy ar gyfer benthyca busnes craidd. Mae'r gallu i "ailgylchu" cyllid yn ychwanegu'n sylweddol at y datganiad gwerth.

Mae'r Banc Datblygu yn gweithredu portffolio o gronfeydd sy'n defnyddio cyfalaf yn effeithiol i gefnogi amcanion datblygu economaidd. Mae rhai cronfeydd â risg uwch nag eraill oherwydd natur y buddsoddiadau neu'r benthyciadau a wnânt. Drwy reoli portffolio cytbwys, mae'r banc ar y trywydd iawn i ad-dalu'n llawn ei rwymedigaethau i Lywodraeth Cymru o ran benthyciadau.

At hynny, mae cyllid a ddefnyddir gan Fanc Datblygu Cymru fel arfer yn denu cyllid sylweddol gan y sector preifat, gan wella'r datganiad gwerth cyffredinol ymhellach. Cafwyd buddsoddiad ychwanegol o £114 miliwn mewn cyd-fuddsodiadau gan fanciau a ffynonellau sector preifat eraill yn 2022/23.

Mae'r cyfraniad a wnaed gan arian yr UE i ddatblygiad y banc wedi bod yn sylweddol yn hanesyddol. Ond nid yw'r Banc Datblygu yn dibynnu mwyach ar gyllid yr UE nac ar gronfeydd olyniaeth yn y DU i gynnal buddsoddiad gyda busnesau yng Nghymru.

James West  
Chief Public Affairs Manager UK  
Compassion in World Farming

19 Ionawr 2024

Cydsniad Deddfwriaethol: Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)

Annwyl Philip

Mae [Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol](#) Llywodraeth Cymru ar [y Bil Lles Anifeiliaid \(Allforion Da Byw\)](#) wedi cael ei gyfeirio at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at ddibenion craffu. Bydd Aelodau yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein cyfarfod ar 7 Chwefror.

Cyn i ni ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, mae Aelodau wedi penderfynu ysgrifennu at ddetholiad o sefydliadau sydd â diddordeb mewn ffermio a lles anifeiliaid i ofyn am eich barn. A fydddechystal ag anfon eich barn atom ynghylch y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac effaith bosibl y Bil ar y diwydiant ffermio a da byw yng Nghymru?

A fydddechystal ag anfon unrhyw ymateb i'r llythyr hwn erbyn 1 Chwefror. Ymddiheuraf am y terfyn amser byr, mae'r amser a roddir i Bwyllgorau graffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol yn eithriadol o gyfyngedig.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ysgrifennu at NFU Cymru ac FUW.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg

Ian Rickman  
Llywydd UAC  
Undeb Amaethwyr Cymru

19 Ionawr 2024

## Cydsniad Deddfwriaethol: Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)

Annwyl Ian

Mae [Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol](#) Llywodraeth Cymru ar [y Bil Lles Anifeiliaid \(Allforion Da Byw\)](#) wedi cael ei gyfeirio at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at ddibenion craffu. Bydd Aelodau yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein cyfarfod ar 7 Chwefror.

Cyn i ni ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, mae Aelodau wedi penderfynu ysgrifennu at ddetholiad o sefydliadau sydd â diddordeb mewn ffermio a lles anifeiliaid i ofyn am eich barn. A fydddechystal ag anfon eich barn atom ynghylch y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac effaith bosibl y Bil ar y diwydiant ffermio a da byw yng Nghymru?

A fydddechystal ag anfon unrhyw ymateb i'r llythyr hwn erbyn 1 Chwefror. Ymddiheuraf am y terfyn amser byr, mae'r amser a roddir i Bwyllgorau graffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol yn eithriadol o gyfyngedig.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ysgrifennu at Compassion in World Farming ac NFU Cymru.

Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Aled Jones

President

NFU Cymru

19 Ionawr 2024

## Cydsniad Deddfwriaethol: Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)

Annwyl Aled

Mae [Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol](#) Llywodraeth Cymru ar [y Bil Lles Anifeiliaid \(Allforio Da Byw\)](#) wedi cael ei gyfeirio at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at ddibenion craffu. Bydd Aelodau yn ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein cyfarfod ar 7 Chwefror.

Cyn i ni ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, mae Aelodau wedi penderfynu ysgrifennu at ddetholiad o sefydliadau sydd â diddordeb mewn ffermio a lles anifeiliaid i ofyn am eich barn. A fydddech cystal ag anfon eich barn atom ynghylch y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ac effaith bosibl y Bil ar y diwydiant ffermio a da byw yng Nghymru?

A fydddech cystal ag anfon unrhyw ymateb i'r llythyr hwn erbyn 1 Chwefror. Ymddiheuraf am y terfyn amser byr, mae'r amser a roddir i Bwyllgorau graffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol yn eithriadol o gyfyngedig.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi ysgrifennu at Compassion in World Farming ac FUW.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Sarah Lewis  
Deputy Director  
Lantra Wales

23 Ionawr 2024

## Ymchwiliad y Pwyllgor: Cyswllt Ffermio

Annwyl Sarah

Y llynedd cytunodd y Pwyllgor y byddai ei raglen waith ar gyfer y gwanwyn yn cynnwys edrych ar Gyswllt Ffermio a sut y bydd yn cefnogi'r gwaith o roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith. Ar ôl gwahodd swyddogion Cyswllt Ffermio i roi tystiolaeth lafar, mae'n ymddangos bod y broses dendro ar gyfer y contract newydd, a'r ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ffactorau yn amseriad y gwaith hwn.

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu bwrw ymlaen i geisio barn amrywiaeth o randdeiliaid ffermio ac amgylcheddol ar Gyswllt Ffermio yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror, ond bydd yn ceisio tystiolaeth lafar gan y rhai sy'n cyflawni'r contract yn ddiweddarach, unwaith y bydd y broses dendro wedi'i chwblhau.

Er fy mod yn sylweddoli na fydd eich sefydliad am ragfarnu unrhyw gais yn y dyfodol y gallech fod yn bwriadu ei wneud ar gyfer y rownd nesaf o gontractau Cyswllt Ffermio, er mwyn helpu i lywio ein gwaith byddai'r Pwyllgor yn awyddus i glywed eich barn a'ch profiad o weithrediad Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd, yn enwedig eich rhyngweithio â ffermwyr, unrhyw beth sy'n rhwystro eich gwaith, ac unrhyw beth yr hoffech ei weld yn newid yn y rownd dendro nesaf.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor gael ymateb mewn pryd i lywio'r sesiynau sydd wedi'u cynllunio gyda rhanddeiliaid, h.y. erbyn diwedd y dydd ddydd Llun 5 Chwefror.

Rydw i hefyd wedi ysgrifennu at Menter a Busnes yn gofyn am eu barn.

Cofion cynnes,



Paul Davies

Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg





Eirwen Williams

Director

Menter a Business

23 Ionawr 2024

## Ymchwiliad y Pwyllgor: Cyswllt Ffermio

Annwyl Eirwen

Y llynedd cytunodd y Pwyllgor y byddai ei raglen waith ar gyfer y gwanwyn yn cynnwys edrych ar Gyswllt Ffermio a sut y bydd yn cefnogi'r gwaith o roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith. Ar ôl gwahodd swyddogion Cyswllt Ffermio i roi tystiolaeth lafar, mae'n ymddangos bod y broses dendro ar gyfer y contract newydd, a'r ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ffactorau yn amseriad y gwaith hwn.

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu bwrw ymlaen i geisio barn amrywiaeth o randdeiliaid ffermio ac amgylcheddol ar Gyswllt Ffermio yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror, ond bydd yn ceisio tystiolaeth lafar gan y rhai sy'n cyflawni'r contract yn ddiweddarach, unwaith y bydd y broses dendro wedi'i chwblhau.

Er fy mod yn sylweddoli na fydd eich sefydliad am ragfarnu unrhyw gais yn y dyfodol y gallech fod yn bwriadu ei wneud ar gyfer y rownd nesaf o gcontractau Cyswllt Ffermio, er mwyn helpu i lywio ein gwaith byddai'r Pwyllgor yn awyddus i glywed eich barn a'ch profiad o weithrediad Cyswllt Ffermio ar hyn o bryd, yn enwedig eich rhyngweithio â ffermwyr, unrhyw beth sy'n rhwystro eich gwaith, ac unrhyw beth yr hoffech ei weld yn newid yn y rownd dendro nesaf.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor gael ymateb mewn pryd i lywio'r sesiynau sydd wedi'u cynllunio gyda rhanddeiliaid, h.y. erbyn diwedd y dydd ddydd Llun 5 Chwefror.

Rydw i hefyd wedi ysgrifennu at Lantra yn gofyn am eu barn.



Cofion cynnes,



Paul Davies AS

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Lesley Griffiths AS  
y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd  
Cymru, a'r Trefnydd

23 Ionawr 2024

## Ymchwiliad y Pwyllgor: Cyswllt Ffermio

Annwyl Lesley,

Y llynedd cytunodd y Pwyllgor y byddai ei raglen waith ar gyfer y gwanwyn yn cynnwys edrych ar Gyswllt Ffermio a sut y bydd yn cefnogi'r gwaith o roi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar waith. Ar ôl gwahodd swyddogion Cyswllt Ffermio i roi tystiolaeth lafar, mae'n ymddangos bod y broses dendro ar gyfer y contract newydd, a'r ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, yn ffactorau yn amseriad y gwaith hwn.

Mae'r Pwyllgor wedi penderfynu bwrw ymlaen i geisio barn amrywiaeth o randdeiliaid ffermio ac amgylcheddol ar Gyswllt Ffermio yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror, a bydd yn ceisio tystiolaeth ysgrifenedig i ddechrau gan y rhai sy'n cyflawni'r contract presennol, gyda thystiolaeth lafar gan y deiliad (neu ddeiliaid) contract newydd yn ddiweddarach. I lywio ein gwaith byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech gadarnhau'r hyn a ganlyn:

- Yr amserlen ddisgwyliedig ar gyfer y broses dendro (i helpu'r Pwyllgor i wybod beth yw'r ffordd orau o gyfrannu safbwyntiau i'r broses o gytuno ar gylch gorchwyl a chylch gwaith ar gyfer y rhai sy'n cyflawni'r contract newydd);
- pryd y bydd y contractwr/contractwyr newydd yn y rôl (i helpu'r Pwyllgor i wybod pryd y gallai ofyn iddynt ddod i mewn i drafod eu cynlluniau);
- cynlluniau ar gyfer pontio rhwng y contractau Cyswllt Ffermio presennol ac yn y dyfodol er mwyn sicrhau proses bontio a throsglwyddo ddi-drafferth;

- manylion cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer y contract newydd – e.e. pa raglenni/gwasanaethau fydd yn cael eu blaenoriaethu a pha adnoddau sydd ar gael; a
- sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Gyswllt Ffermio helpu i weithredu elfennau eang y Cynllun Ffermio Cynalisadwy arfaethedig (tra'n cydnabod bod y Cynllun yn dal i fod yn destun ymgynghoriad).

Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor gael ymateb mewn pryd i lywio'r sesiynau sydd wedi'u cynllunio gyda rhanddeiliaid, h.y. erbyn diwedd y dydd ddydd Llun 5 Chwefror.

Cofion cynnes,



**Paul Davies AS**

Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg



Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 8

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon



# Eitem 9

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon